OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 1360 (Cy. 88)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Labelu Cig Eidion (Gorfodi) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *29 Mawrth 2001* |
| *Yn dod i rym- - -* | *1 Ebrill 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 6(4), 17(2) a 26(3) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 48(4) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enw, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Cig Eidion (Gorfodi) (Cymru) 2001; byddant yn gymwys i Gymru a deuant i rym ar 1 Ebrill 2001.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn 1141/97" ("*Commission Regulation 1141/97*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1141/97(**2**) sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 820/97 o ran labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion;

ystyr "Rheoliad y Comisiwn 1825/2000" ("*Commission Regulation 1825/2000*") yw Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1825/2000(**3**) sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion;

ystyr "Rheoliad 1760/2000" ("*Regulation 1760/2000*") yw Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**4**)) sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid

(**1**) 1990 p.16; mae swyddogaethau y dywedir eu bod yn arferadwy gan "the Secretary of State" yn arferadwy bellach mewn perthynas â Chymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol â Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Ychwanegwyd adran 48(4A) gan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p.28), Atodlen 5, paragraff 21.

(**2**) OJ Rhif L165, 24.6.97. t.7, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 824/98 (OJ Rhif L117, 21.4.98, t. 4).

(**3**) OJ Rhif L216, 26.8.00, t.8.

(**4**) OJ Rhif L204, 11.8.00, t.1.

buchol ac ynghylch labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 820/97.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn.

### Yr awdurdod cymwys

**3.** Y Cynulliad Cenedlaethol fydd yr awdurdod cymwys at ddibenion Teitl II o Reoliad 1760/2000, Rheoliad y Comisiwn 1141/97 a Rheoliad y Comisiwn 1825/2000.

### Gorfodi gofynion labelu gorfodol a gwirfoddol

**4.**—(1) Bydd unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio—

(a) mewn perthynas â chig eidion sy'n deillio o anifeiliaid a gafodd eu cigydda ar neu ar ôl 1 Medi 2000, â'r gofynion sy'n gymwysadwy o dan Deitl II o Reoliad 1760/2000 a Rheoliad y Comisiwn 1825/2000; neu

(b) mewn perthynas â chig eidion sy'n deillio o anifeiliaid a gafodd eu cigydda cyn 1 Medi 2000, â'r gofynion sy'n gymwysadwy o dan Reoliad y Comisiwn 1141/97,

yn euog o dramgwydd.

(2) Os oes cig eidion wedi'i labelu a'i farchnata mewn modd nad yw'n cydymffurfio—

(a) mewn perthynas â chig eidion sy'n deillio o anifeiliaid a gafodd eu cigydda ar neu ar ôl 1 Medi 2000, â'r gofynion labelu gorfodol neu wirfoddol sy'n gymwysadwy o dan Deitl II o Reoliad 1760/2000 a Rheoliad y Comisiwn 1825/2000; neu

(b) mewn perthynas â chig eidion sy'n deillio o anifeiliaid a gafodd eu cigydda cyn 1 Medi 2000, â'r gofynion labelu gwirfoddol sy'n gymwysadwy o dan Reoliad y Comisiwn 1141/97,

gall un o swyddogion awdurdod gorfodi o fewn ystyr paragraff (1) o reoliad 5 neu berson a awdurdodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol gyflwyno hysbysiad i'r person sydd â meddiant y cig eidion yn ei gwneud yn ofynnol rhoi'r gorau i'w gynnig ar werth nes i'r cig eidion gael ei ail-labelu yn unol â'r gofynion hyn.

(3) Mewn perthynas â chig eidion sy'n deillio o anifeiliaid a gafodd eu cigydda ar neu ar ôl 1 Medi 2000, gall hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (2) uchod awdurdodi anfon y cig eidion yn uniongyrchol i'w brosesu yn gynhyrchion heblaw'r rhai a nodwyd yn indentiad cyntaf Erthygl 12 o Reoliad 1760/2000.

(4) Bydd unrhyw berson na fydd yn cydymffurfio â darpariaethau hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (2) uchod yn euog o dramgwydd.

### Yr Awdurdodau Gorfodi

**5.**—(1) Yn ddarostyngedig i'r darpariaethau canlynol yn y rheoliad hwn, at ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn, cyngor y sir neu'r fwrdeistref sirol fydd yr awdurdodau gorfodi mewn perthynas â phob sir a bwrdeistref sirol.

(2) Caiff y Rheoliadau hyn eu gorfodi mewn perthynas â lladd-dai, safleoedd torri a chyfanwerthwyr gan yr awdurdodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) o'r rheoliad hwn a chan y Cynulliad Cenedlaethol.

### Cosbi

**6.** Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn, o'i gollfarnu'n ddiannod, yn agored i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol.

**Cymhwyso amrywiol ddarpariaethau Deddf Diogelwch Bwyd 1990**

**7.**—(1) Bydd y darpariaethau canlynol yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990 yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn fel y maent yn gymwys at ddibenion adrannau 8, 14 neu 15 o'r Ddeddf honno ac, oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall, rhaid i unrhyw gyfeiriad at y darpariaethau hynny yn y Ddeddf honno gael eu dehongli fel cyfeiriad i'r darpariaethau hynny fel y cymhwysir hwy at ddibenion y Rheoliadau hyn—

(a) adran 2 (yn estyn ystyr "sale" etc.);

(b) adran 20 (tramgwyddau oherwydd bai person arall);

(c) adran 21 (amddiffyniad diwydrwydd dyladwy);

(ch) adran 30(8) (tystiolaeth ddogfennol);

(d) adran 35(1) i (3) (cosbi tramgwyddau) i'r graddau y mae'n ymwneud â thramgwyddau o dan adran 33(1) a (2);

(dd) adran 36 (tramgwyddau gan gyrff corfforaethol); ac

(e) adran 44 (diogelu swyddogion sy'n gweithredu'n ddidwyll).

(2) Bydd adrannau 32 a 33 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (pwerau mynediad, rhwystro etc. swyddogion) yn gymwys at ddibenion y Rheoliadau hyn fel y maent yn gymwys at ddibenion y Ddeddf honno; a rhaid dehongli unrhyw gyfeiriad at y Ddeddf yn yr adrannau hynny at ddibenion y Rheoliadau hyn fel pe baent yn cynnwys cyfeiriad—

(a) at Deitl II o Reoliad 1760/2000 a Rheoliad y Comisiwn 1825/2000 mewn perthynas â chig eidion sy'n deillio o anifeiliaid a gafodd eu cigydda ar neu ar ôl 1 Medi 2000; a

(b) Rheoliad y Comisiwn 1141/97 mewn perthynas â chig eidion sy'n deillio o anifeiliaid a gafodd eu cigydda cyn 1 Medi 2000.

**Diddymu**

**8.** Diddymir Rheoliadau Labelu Cig Eidion (Gorfodi) 1998(**5**) i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**6**)

*D.Elis Thomas*
29 Mawrth 2001 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**5**) O.S. 1998/616.
(**6**) 1998, p 38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer gorfodi'r canlynol yng Nghymru—

(a) Teitl II o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru anifeiliaid buchol ac ynghylch labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion (OJ Rhif L204, 11.8.00, t.1) ("Rheoliad y Cyngor") a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1825/2000 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 o ran labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion (OJ Rhif L216, 26.8.00, t. 8) ("Rheoliad y Comisiwn"), mewn perthynas â chig eidion sy'n deillio o anifeiliaid a gafodd eu cigydda ar neu ar ôl 1 Medi 2000; a

(b) Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1141/97 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 820/97 o ran labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion, mewn perthynas â chig eidion sy'n deillio o anifeiliaid a gafodd eu cigydda cyn 1 Medi 2000.

Mae'r Rheoliadau hyn—

- yn peri mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn (rheoliad 3);
- yn creu tramgwydd o fethu â chydymffurfio â'r gofynion sy'n gymwysadwy o dan Reoliad y Cyngor a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1825/2000 os yw'r methiant hwnnw yn fethiant mewn perthynas â chig eidion sy'n deillio o anifeiliaid a gafodd eu cigydda ar neu ar ôl 1 Medi 2000 (rheoliad 4(1)(a));
- yn creu tramgwydd o fethu â chydymffurfio â'r gofynion sy'n gymwysadwy o dan Reoliad y Comisiwn 1141/97 os yw'r methiant hwnnw yn fethiant mewn perthynas â chig eidion sy'n deillio o anifeiliaid a gafodd eu cigydda cyn 1 Medi 2000 (rheoliad 4(1)(b);
- yn darparu pŵer i'r awdurdodau gorfodi roi hysbysiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau roi'r gorau i gynnig gwerthu unrhyw gig eidion sydd wedi'i labelu mewn modd nad yw'n cydymffurfio â gofynion Rheoliad y Cyngor, Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1825/2000 neu Reoliad y Comisiwn 1141/97 (rheoliad 4(2));
- yn creu tramgwydd o fethu â chydymffurfio â hysbysiad a roddir o dan reoliad 4(2) (rheoliad 4(4));
- yn enwi'r awdurdodau gorfodi (rheoliad 5);
- yn pennu cosb am unrhyw dramgwydd o dan y Rheoliadau (rheoliad 6);
- yn cymhwyso amryw byd o ddarpariaethau gorfodi Deddf Diogelwch Bwyd 1990 (rheoliad 7);
- yn diddymu Rheoliadau Labelu Cig Eidion (Gorfodi) 1998 mewn perthynas â Chymru.